# Dyddiadur Niwsans Sŵn
# Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

**Nodiadau Cyfarwyddyd**

Mae cwblhau'r dyddiadur yn bwysig iawn. Mae'n galluogi gwybodaeth werthfawr i gael ei gasglu am yr amser, amlder a hyd y sŵn a gallai ddatgelu patrwm y sŵn, a fydd yn helpu ymchwilwyr wirio eich cwyn. Efallai y bydd y wybodaeth hefyd yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos gorfodi, ac felly mae'n hanfodol eu bod yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn berthnasol.

- Sicrhewch fod y dyddiad/amser yn gywir, gwnewch yn siŵr bod y diwrnod/dyddiad hefyd yn cyd-fynd ac yn dangos os mai AM neu PM ydyw.

- Os yw'r sŵn yn digwydd dros ddeuddydd (e.e. 11.00pm ar Ddydd Sadwrn tan 4.00am ar Ddydd Sul), nodwch y dyddiad cychwynnodd y sŵn yn unig (e.e. Dydd Sadwrn), neu nodwch y ddau (e.e. Dydd Sadwrn-Dydd Sul).

- Os yw'r sŵn yn cychwyn yn oriau mân y bore, byddwch yn siŵr i gofnodi dyddiad y diwrnod newydd, nid y diwrnod/dyddiad y noson cynt.

- Ar gyfer sŵn ysbeidiol fel ci/cŵn yn cyfarth, ceisiwch nodi'r broblem mor gywir ag y bo modd. Er enghraifft, os yw ci'n cyfarth am ychydig funudau nawr ac yn y man yn ystod y dydd, bydd nodi "cyfarth ci, 8.00am-6.00pm" ddim yn rhoi darlun cywir. Nid oes angen i nodi pob sŵn/cyfarthiad, ond ceisiwch roi syniad o'r patrwm, amlder a hyd y sŵn.

- Peidiwch â chofnodi pob sŵn, cadwch eich cofnodion dyddiadur yn fyr, i'r pwynt, a chyfyngwch i sŵn sydd yn ormodol ac afresymol yn unig.

Efallai bydd rhaid cadw dyddiadur am gyfnod sylweddol o amser.  Mewn nifer o achosion, efallai bydd rhaid cadw'r dyddiadur nes i'r broblem cael ei ddatrys.  Hyd yn oed os yw camau gorfodi wedi'u cymryd, gall problemau dychwelyd, ac efallai y bydd camau pellach yn gofyn am brawf bod y broblem yn parhau. Os yw eich cwyn yn cael ei ymchwilio, dylech anfon eich dyddiadur i'r Swyddog sy'n ymchwilio yn rheolaidd (**saith i ddeg diwrnod**) fel y gall y sefyllfa cael ei fonitro. Os na fyddwn yn clywed gennych, bydd yn ymddangos nad oes problem bellach, felly os oes, mae'n rhaid i chi gadw mewn cysylltiad.

# Deddf Diogelu’r Amgylchedd 1990

**Sŵn yn dod o:**

**Sŵn yn cael ei brofi yn:**

**Cyfeirnod:** **Dychwelwch ddyddiadur (llofnodedig*) i:**

| Dyddiad | Amser Cychwyn | Amser Gorffen | Disgrifiad y Sŵn | Disgrifiwch sut cawsoch eich rhwystro gan y sŵn a nodwch pha ran o’r eiddo cafodd ei effeithio, gan gynnwys yr ardd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rwyf yn tystio fod hyn yn gofnod gwir a chywir o'r sŵn a brofir fel y nodwyd ar yr adegau a dyddiadau a restrwyd uchod. Mae'r cofnodion dyddiadur hyn hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred yn rhai cywir, ac rwyf yn deall os ydynt yn cael eu defnyddio mewn tystiolaeth, byddaf yn agored i erlyniad os wyf wedi datgan yn fwriadol ynddynt unrhyw beth yr wyf yn gwybod ei bod yn ffug neu nad wyf yn credu i fod yn wir. Deallaf y byddai'r cofnodion hyn yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth mewn achos llys ac mewn sefyllfa o'r fath byddai'n rhaid iddynt gael eu darparu at y diffynnydd / tramgwyddwr ac os bydd y mater yn mynd i'r llys, **efallai** y bydd angen i mi fynd i'r llys i roi tystiolaeth.

**Enw:** **Llofnod(au)*:** **Dyddiad Cyflwyno:**